Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd
# New Street
# Glyn-nedd
# Castell-nedd
# Castell-nedd Port Talbot
# SA11 5AA

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd yng nghanol tref Glyn-nedd. Mae’r ysgol o dan ofal awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae’n gwasanaethu rhannau gogleddol Cwmnedd a’r cymoedd cyfagos.

Mae 154 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 11 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae ganddi chwech dosbarth ac mae’r rhan fwyaf yn gymysg o ran oedran.

Mae tua 8% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae’r ysgol yn nodi bod gan 18% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol sy’n is na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Lleiafrif o ddisgyblion sy’n siarad Cymraeg fel mamiaith gartref ac mae tua 2% o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Ebrill 2009. Penodwyd y pennaeth ym Medi 2003.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd yn 2016-2017 yw £3,379. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghastell Nedd Port Talbot yw £6,224 a'r lleiafswm yw £2,851. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd yn y 35ain safle o'r 57 ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn dda
- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm
- y rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn dyfalbarhau pan maent yn wynebu anawsterau
- darpariaeth TGCh ar draws yr ysgol yn gryfder
- yr addysgu yn gyson gadarn
- prosesau asesu'r ysgol yn gynhwysfawr
- yr ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn
- aelodau'r uwch dîm rheoli yn cefnogi'r pennaeth a'r athrawon yn effeithiol fel arweinyddion pwnc
- y staff i gyd yn gweithio fel tîm
- arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn effeithiol
- gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu
- yr ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn ystod dda o bartneriaethau buddiol sy'n ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb

A2 Darparu cynllun gwaith gwyddoniaeth sydd yn sicrhau cynnydd ar draws yr ysgol

A3 Sicrhau digon o her mewn gwersi ar gyfer disgyblion mwy abl

A4 Ymateb i'r pryderon iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

A5 Datblygu rôl yr uwch dim rheoli fel arweinwyr strategol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau sy'n is na'r rhai a ddisgwylir am eu hoedran. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau personol, llythrennedd a rhifedd wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un disgybl yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn mynegi eu barn yn hyderus ac yn defnyddio ystod dda o eirfa. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod eu gwaith yn aeddfed ac yn defnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc yn gywir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda mewn perthynas â'u mannau cychwyn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl, yn cymeriadu'n ac yn trafod eu hoff lyfrau yn frwdfrydig. Maent yn deall y berthynas rhwng llythrennau a seiniau yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus, yn rhugl a chyda mynegiant priodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn darllen amrywiaeth o lyfrau ffuglen a ffeithiol yn fedrus ac yn cymhwyso eu medrau sgimio a sganio yn llwyddiannus i destunau er mwyn dod o hyd i wybodaeth berthnasol. Mae disgyblion hŷn yn mynegi hoffterau ar gyfer gwahanol awduron ac yn siarad am nodweddion penodol gwahanol fathau o lyfrau yn hyderus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn dangos dealltwriaeth dda o sillafu a chystrawen. Mae disgyblion mwy galluog yn ysgrifennu storïau cyfarwydd a thestunau gwybodaeth, fel llythyrau a barddoniaeth yn fedrus, gyda llawer yn defnyddio atalnodi sylfaenol a sillafu geiriau cyffredin yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu mewn gwahanol genres. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir, gan ddatblygu arddull llawysgrifen dda ac atalnodi eu gwaith yn llwyddiannus. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn gadarn mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, lleiafrif o waith ailddrafftio ac ysgrifennu estynedig sydd i'w weld yn eu llyfrau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn effeithiol i amrywiaeth o dasgau mathemategol, gan gynnwys defnyddio rhifau, mesur, trin data a siâp wrth weithio ar themau tymhorol. Maent yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda ac yn eu cymhwyso mewn meysydd dysgu eraill yn hyderus. Er enghraifft, wrth defnyddio app Alun yr Arth, mae'r disgyblion yn creu proffil i gasglu gwybodaeth taldra a pwysau chwareuwyr rygbi.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn ystod o gyd-destunau. Mae eu medrau mathemategol yn datblygu’n dda. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth da o luosi a rhannu degolion, talgrynnu, cyfrifo ffracsiynau, mesur arwynebedd a datrys arwynebedd siapiau cyfansawdd. Mae’r mwyafrif yn cyflawni cyfrifiadau pen yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio dulliau addas i ymgymryd â'u tasgau mesur a siâp, er enghraifft cymharu hinsawdd Cymru a Phatagonia. Maent yn dehongli graffiau gwahanol ac yn gofyn cwestiynau priodol ynglŷn â’r data yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth da o cyfesurynau wrth greu llun o’r Mimosa.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh yn effeithiol iawn i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn hyderus iawn wrth ddefnyddio offer a rhaglenni TGCh tra'n datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. O oedran cynnar, maent yn datblygu medrau annibynnol da ac yn defnyddio tabledi yn fedrus, er enghraifft wrth fwydo gwybodaeth ac ymholi am eirth ar gyfer bas data. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion o safon uchel. Er enghraifft, maent yn datblygu dealltwriaeth werthfawr o sut i ddefnyddio taenlenni i archwilio patrymau a chysylltiadau trwy gyfrifo costau taenlenni bwydydd gwahanol. Maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau cyfoes mewn modd creadigol iawn. Enghraifft o hyn yw’r ffordd mae disgyblion hŷn yn defnyddio rhaglen i greu ffilmiau i ddathlu bywyd Roald Dahl. Mae deallusrwydd e-ddiogelwch y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gymwys.

Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni eu targedau unigol. Yn gyffredinol, mae’r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd pwrpasol yn unol â’u gallu.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig gan amlaf yn uwch na’r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, amrywiol yw perfformiad llythrennedd ar y deilliant disgwyliedig. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 25% isaf a’r 25% uchaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ymhob pwnc craidd wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf. Yn gyffredinol, mae tuedd ar i fyny mewn mathemateg. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% isaf a’r 50% uwch, ac mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 50% is a’r 25% isaf dros y pedair blynedd diwethaf.

Dros gyfnod o bedair mlynedd, amrywiol yw perfformiad merched a’r bechgyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch ym mhob maes dysgu. Mae’r bwlch wedi cau rhwng perfformiad bechgyn a merched ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefelau disgwyliedig ond mae’n amrywio ar y lefelau uwch yn y pynciau craidd.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol ac maent yn gwrtais i oedolion ac i'w gilydd. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n dda â staff a'i gilydd ac yn cymryd rhan mewn tasgau gyda brwdfrydedd, wrth ddangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn dyfalbarhau pan maent yn wynebu anawsterau.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach. Maent yn deall pwysigrwydd ymarfer corff yn rheolaidd a bwyta'n iach.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau cymdeithasol a bywyd da. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn frwdfrydig am eu rolau ac yn sicrhau bod y disgyblion eraill yn cael llais yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn annog yr iaith Gymraeg o gwmpas yr ysgol. Llwyddodd y disgyblion hŷn i ysgrifennu a chyhoeddi llyfryn ar enwogion Cymru gan wneud elw i gronfa'r ysgol. Maent yn cyfrannu'n helaeth at waith elusennol yr ysgol drwy godi arian a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned. Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o'u targedau ac yn cyfeirio atynt wrth weithio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion dros y pedair mlynedd ddiwethaf wedi gosod yr ysgol yn gyson yn is na'r cyfartaledd o'u cymharu gydag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cynnig cyfleoedd da i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae cynllunio pwrpasol yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol, y fframwaith llythrennedd a rhifedd ac addysg grefyddol. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i ehangu medrau trawsgwricwlaidd llawer o ddisgyblion, er enghraifft ymweliadau â'r Wyddfa a Beddgelert. Mae'r cwricwlwm yn cynnig rhaglenni personol pwrpasol ar gyfer llawer o ddisgyblion ag anghenion penodol. Mae darpariaeth TGCh ar draws yr ysgol yn gryfder. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun gwyddoniaeth yn sicrhau cynnydd o flwyddyn i flwyddyn.

Mae darpariaeth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a TGCh wedi'i chynllunio'n dda ac yn cael ei hymgorffori'n gadarn ym mhrofiad y rhan fwyaf o ddisgyblion. Ceir cyfleoedd da i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn, gan gynnwys gwaith arbennig yr arweinwyr digidol, er enghraifft eu gwaith effeithiol ar y Gemau Olympaidd. Mae darpariaeth dda ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol gwerthfawr, gan cynnwys clwb technoleg, chwaraeon ac ymweliadau preswyl rheolaidd.

Caiff yr iaith Gymraeg ei hyrwyddo’n llwyddiannus. Mae’r ysgol yn annog disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg yn helaeth, er enghraifft i ddarllen storïau gyda disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae athrawon yn cynnig profiadau gwerthfawr ac amrywiol sy’n hyrwyddo’r cwricwlwm Cymreig. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad disgyblion â Blas Tan y Bwlch i ddysgu fwy am hanes Cymru.

Drwy hyrwyddo ysgol eco ac ysgolion iach yn llwyddiannus, mae’r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol. Mae eu hymgyrch i godi arian ar gyfer nifer o elusennau, fel Plant mewn Angen, yn cryfhau ymwybyddiaeth y disgyblion am dlodi ac anfantais. Mae’r ysgol yn ymddwyn yn gynaliadwy drwy annog ymroddiad y disgyblion i dyfu llysiau a blodau, ailgylchu ac arbed dŵr glaw ar safle’r ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson gadarn ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r berthynas waith rhwng athrawon a disgyblion yn gryf iawn ac maent yn parchu ei gilydd. Mae ethos cadarnhaol iawn ym mron pob un gwers.

Mae gan yr athrawon wybodaeth fanwl am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu ac maent yn cynllunio gwersi’n fanwl. Mae’r rhan fwyaf o wersi yn ddiddorol a bywiog ac mae athrawon yn defnyddio ystod dda o adnoddau a strategaethau i ysgogi diddordeb y disgyblion. Maent yn rhannu amcanion gwersi yn effeithiol gyda'r disgyblion ac yn eu holi’n bwrpasol i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a chodi safonau. Mae athrawon a chynorthwywyr yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd i alluogi mwyafrif y disgyblion i gyflawni canlyniadau da. Mae staff yn modelu iaith yn gywir ac mae hyn yn cyfoethogi ansawdd iaith lafar disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, er bod mwyafrif yr athrawon yn sicrhau darpariaeth a chefnogaeth gadarn i unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr, nid ydynt bob amser yn gwahaniaethu gweithgareddau’n ddigon gofalus i herio’r disgyblion mwy abl.

Mae prosesau asesu’r ysgol yn gynhwysfawr. Mae gan yr ysgol wybodaeth gadarn am gyraeddiadau disgyblion. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio targedau unigol buddiol er mwyn gwella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Mae adborth athrawon i waith disgyblion yn rheolaidd ac adeiladol, a chaiff disgyblion gyfleoedd addas i ymateb i’w sylwadau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn hyderus. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gref o’r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn llwyddo mewn tasgau. Mae asesiadau athrawon yn drwyadl ac yn berthnasol i hybu gwelliant.

Caiff pob rhiant wybodaeth reolaidd am gynnydd eu plentyn, ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy’n rhoi blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Trwy profiadau amrywiol effeithiol, gweithgareddau corfforol yn ystod yr awr ginio a chlybiau ar ôl yr ysgol, caiff disgyblion amrywiaeth o gyfleoedd i gynyddu eu lefelau iechyd a ffitrwydd. Mae gweithdrefnau cadarn, cyson i hyrwyddo presenoldeb da.

Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo dealltwriaeth moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn datblygu'n dda drwy themâu trawsgwricwlaidd a gweithgareddau allgyrsiol.  Er enghraifft, mae disgyblion yn darparu adloniant i gartref yr henoed ac mae hyn yn cynnig profiadau cymunedol gwerthfawr i ddisgyblion.

Mae'r cyfnodau o gydaddoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y disgyblion, eu datblygiad ysbrydol ac ethos yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gyswllt effeithiol gyda nifer o asiantaethau allanol fel seicolegydd addysg ac athrawon arbenigol.  Mae hyn yn sicrhau arweiniad ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig penodol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae llawer o gynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir ac yn amlinellu gweithgareddau penodol i sicrhau cynnydd i ddisgyblion.  Mae llawer o ddisgyblion yn trafod eu targedau personol gyda athrawon ac mae rhieni yn cael mewnbwn rheolaidd i adolygu cynnydd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Digonol**

Mae gan yr ysgol ethos croesawgar, cynhwysol a theuluol.  Caiff disgyblion hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a darpariaeth.  Mae'r staff yn annog disgyblion i gydweithio'n dda ac i fod yn ofalgar tuag at ei gilydd ac yn gosod pwyslais uchel ar gydraddoldeb, amrywiaeth a pharch.  Mae polisïau a strategaethau'r ysgol yn cefnogi'r ethos cadarnhaol yn dda.  Mae cyfleoedd priodol i'r holl ddisgyblion fanteisio ar ystod fuddiol o weithgareddau ac ymweliadau diddorol eraill.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau da sy'n cefnogi dysgu ac addysgu yn llwyddiannus, gan gynnwys cyflenwad helaeth o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, sy'n datblygu medrau digidol y dysgwyr yn effeithiol.  Mae'r ysgol yn defnyddio'r ardal allanol yn llwyddiannus i weithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

Mae arddangosfeydd yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn cefnogi strategaethau addysgu ac yn ychwanegu at ethos cartrefol yr ysgol.

Mae safon glanweithdra yr ysgol yn uchel ac mae'r adeiladau mewn cyflwr addas.  Mae'r staff ategol yn cynnal a chadw'r adeiladau'n dda.  Er gwaetha'r ymdrech i wneud hyn, tynnwyd sylw'r corff llywodraethol at ddau fater sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac mae ganddo ddisgwyliadau uchel. Trwy gyfraniad effeithiol yr uwch dîm rheoli yn cefnogi'r pennaeth a'r athrawon fel arweinyddion pwnc, i strwythurau monitro'r ysgol, mae'r ysgol yn datblygu fel cymuned ddysgu lwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw rôl yr uwch dîm fel arweinwyr strategol wedi datblygu'n llawn ar draws yr ysgol.

Mae staff addysgu a staff cymorth yn frwdfrydig ac yn cydweithio'n agos iawn fel tîm. Mae eu rolau a'u cyfrifoldebau'n datblygu'n briodol ac mae eu hymroddiad yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau disgyblion. Mae cyfarfodydd yr uwch dîm rheoli a chyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n bwrpasol ar ddarpariaeth, ansawdd yr addysgu a deilliannau disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad effeithlon ar gyfer pob aelod o staff, sydd yn adnabod ac yn cefnogi agweddau perthnasol ar gyfer eu datblygiad proffesiynol yn llwyddiannus.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae ganddynt dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau, blaenoriaethau'r ysgol a safonau a pherfformiad yr ysgol. Mae aelodau'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn derbyn cyflwyniadau ar agweddau'r cwricwlwm gan athrawon a chyflwyniadau gan y cyngor ysgol. Maent yn datblygu eu rôl i herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformaid o gymharu ag ysgolion tebyg yn dda.

Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn effeithiol, gan gynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Siarter Iaith. Mae'r ysgol wedi dechrau ymateb i'r Fframwaith Digidol yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Maent yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a cheisio barn reolaidd disgyblion, rhieni a llywodraethwyr.

Mae bob aelod o'r staff a llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y broses hunanarfarnu ac yn cynnig mewnbwn gwerthfawr i'r broses. Mae'r deilliannau yn darparu asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac o ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r broses hunanarfarnu yn effeithiol i bennu blaenoriaethau allweddol a meysydd ffocws ar gyfer gwella'r ysgol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu cyfredol yn ddogfen gynhwysfawr ac yn cynnig darlun cywir o'r ysgol. Fodd bynnag, weithiau mae'n rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n ddigon arfarnol.

Mae cynllun datblygu trwyadl a chryno yn nodi targedau perthnasol a phenodol, a meini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau monitro cynnydd. Mae

trefniadau effeithiol yr uwch dîm rheoli yn sicrhau eu bod yn monitro prif flaenoriaethau'r cynllun datblygu yn barhaus. Mae adolygiad trylwyr o'r cynnydd mewn perthynas â bwriadau'r cynllun blaenorol yn enghraifft da o hyn. Er enghraifft, mewn safonau mathemateg, mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar wella safonau gwaith disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn ystod dda o bartneriaethau buddiol sy'n ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r wybodaeth gyson o'r ysgol a'r cyfleoedd y maent yn eu cael i weld gwaith eu plant. Mae cymdeithas cyfeillion yr ysgol yn cefnogi'r ysgol yn dda trwy godi arian i brynu adnoddau TGCh sydd wedi cael effaith buddiol ar godi safonau disgyblion.

Mae partneriaeth gadarn rhwng yr ysgol a'r gymuned leol sydd yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae neiniau yn gwrando ar ddarllenwyr ac mae aelod o'r gymuned yn arwain clwb clocsio.

Mae partneriaeth lwyddiannus gydag asiantaethau arbenigol a'r awdurdod lleol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r disgyblion hefyd yn elwa o ymweliadau'r heddlu a nyrs yr ysgol sy'n codi eu hymwybyddiaeth o sut i gadw'n ddiogel.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol â chylchoedd meithrin yr ardal. Mae trefniadau i blant ymweld â'r ysgol cyn iddynt ddechrau ac i'r athrawon ymweld â'r sefydliadau. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ymgartrefu'n hapus wrth gychwyn yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae trefniadau cynhwysfawr ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae ymweliadau yn cychwyn ym mlwyddyn 5. Mae nifer o weithgareddau ar y cyd gyda disgyblion hŷn y clwstwr yn sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 6 yn barod am y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae athrawon yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion y dalgylch a'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn galluogi staff i gydweithio'n effeithiol i safoni a chymedroli gwaith disgyblion, sicrhau cywirdeb eu hasesiadau a pharatoi adnoddau dysgu gwerthfawr mewn llythrennedd a rhifedd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol gyflenwad addas o athrawon a chynorthwywyr dosbarth i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm.

Mae'r prosesau ar gyfer rheoli perfformiad yn arwain at bennu targedau priodol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn hyrwyddo agweddau perthnasol ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff yn llwyddiannus. Defnyddia'r athrawon eu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol i godi safonau, er enghraifft er mwyn creu asesiadau rhesymu mewn rhifedd ar gyfer y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n addas o fewn rhwydweithiau dysgu, sy'n cyfrannu'n briodol at gyfoethogi darpariaeth yr ysgol. Er enghraifft, mae athrawon yn cyfrannu'n fuddiol i rwydwaith o ysgolion cynradd ac uwchradd i ddatblygu medrau darllen disgyblion.

Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau llythrennedd disgyblion.

Mae'r pennaeth a phwyllgor cyllid y llywodraethwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda swyddog cyllid yr awdurdod i reoli'r cyllid er mwyn dileu'r gorwariant sylweddol. Maent hefyd yn gweithio'n galed i godi arian trwy gynnal gwahanol weithgareddau er mwyn gwella'r sefyllfa ariannol. Yn gyffredinol, mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n addas â blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r grant amddifadedd i ddatblygu lles disgyblion drwy gyflogi cynorthwywyr i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr. Caiff y gwariant ei fonitro'n ofalus gan arweinwyr. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

O ystyried safonau cyflawniad a chynnydd y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6712205 - YGG Cwmnedd**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 175 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.0 |
| Grŵp PYD | 1 (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 25 | 38 | 16 | 22 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 84.0 | 86.8 | 87.5 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 38 | 16 | 22 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.0 | 86.8 | 93.8 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 12.0 | 13.2 | 37.5 | 31.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 3 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 38 | 16 | 22 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.0 | 92.1 | 87.5 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.0 | 36.8 | 50.0 | 54.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 2 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 38 | 16 | 22 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 92.1 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 32.0 | 52.6 | 68.8 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6712205 - YGG Cwmnedd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 175 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 8.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 18 | 18 | 18 | 25 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 88.9 | 94.4 | 100.0 | 92.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 18 | 18 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 88.9 | 100.0 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 11.1 | 16.7 | 44.4 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 18 | 18 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 88.9 | 94.4 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 11.1 | 22.2 | 38.9 | 36.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 18 | 18 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 16.7 | 44.4 | 50.0 | 52.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 18 | 18 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 100.0 | 100.0 | 92.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 16.7 | 16.7 | 38.9 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 84 | 84<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 85 | 84<br>99%<br>92% | 1<br>1%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 85 | 85<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 85 | 85<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 85 | 85<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 85 | 83<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 85 | 85<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 85 | 85<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 85 | 81<br>95%<br>91% | 4<br>5%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 85 | 85<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 85 | 71<br>84%<br>77% | 14<br>16%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 81 | 78<br>96%<br>84% | 3<br>4%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 30 | 10 | 11 | 8 | 1 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 33% | 37% | 27% | 3% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 31 | 16 | 11 | 2 | 2 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 52% | 35% | 6% | 6% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 31 | 16 | 13 | 2 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 52% | 42% | 6% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 31 | 9 | 17 | 4 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 29% | 55% | 13% | 3% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 30 | 5 | 17 | 5 | 3 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 17% | 57% | 17% | 10% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 31 | 8 | 19 | 4 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 26% | 61% | 13% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 30 | 14 | 12 | 3 | 1 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 47% | 40% | 10% | 3% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 27 | 9 | 12 | 6 | 0 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 33% | 44% | 22% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 30 | 10 | 11 | 6 | 3 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 33% | 37% | 20% | 10% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 27 | 10 | 14 | 3 | 0 | 4 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 37% | 52% | 11% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 31 | 14 | 12 | 3 | 2 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 45% | 39% | 10% | 6% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 23 | 8 | 8 | 5 | 2 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 35% | 35% | 22% | 9% | | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 31 | 7 | 17 | 6 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 23% | 55% | 19% | 3% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 31 | 14<br>45% | 7<br>23% | 5<br>16% | 5<br>16% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 29 | 12<br>41% | 10<br>34% | 5<br>17% | 2<br>7% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 30 | 13<br>43% | 13<br>43% | 2<br>7% | 2<br>7% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 24 | 10<br>42% | 9<br>38% | 3<br>12% | 2<br>8% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 29 | 10<br>34% | 11<br>38% | 6<br>21% | 2<br>7% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 30 | 9<br>30% | 10<br>33% | 6<br>20% | 5<br>17% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Meinir Howells | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Deris Williams | Arolygydd Lleyg |
| Rayanne Rogers | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhodri Siôn | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.